

Asesiad o Les Lleol Abertawe 2022

Atodiad 3: Ynglŷn â'r Asesiad

Mae'r nodyn hwn yn nodi cefndir ail asesiad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe o les lleol ar gyfer 2022. Mae'n nodi gofynion y ddeddfwriaeth, prif agweddau ein hymagwedd a newidiadau o'r asesiad cyntaf yn 2017, crynodeb o'r cynnwys a'r cyfranogiad a wnaed i gefnogi'r asesiad hyd yma, a'n proses gyffredinol o gasglu tystiolaeth.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf') yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn peri i lywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol a chyrrff cyhoeddus penodol eraill yng Nghymru feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'i gilydd, ceisio atal problemau a gweithredu mewn modd mwy cydlynol.

Er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod llesiant ar waith:

- **Cymru lewyrchus:** Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.
- **Cymru gydnherth:** Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnherthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).
- **Cymru iachach:** Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
- **Cymru sy'n fwy cyfartal:** Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).
- **Cymru o gymunedau cydlynus:** Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu:** Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
- **Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang:** Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

Mae'r Ddeddf yn gofyn bod cyrrff cyhoeddus yn gwneud pethau i geisio llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru mewn modd sy'n cyd-fynd ag egwyddor datblygu cynaliadwy, h.y. gweithredu mewn modd sy'n ceisio "sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau". Mae'r Ddeddf hefyd:

- yn gofyn bod cyrff cyhoeddus yn adrodd ynghylch gweithredu o'r fath;
- wedi sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gynghori a chynorthwyo cyrff cyhoeddus i weithredu'n unol â'r Ddeddf hon;
- wedi sefydlu byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn ardaloedd awdurdodau lleol;
- yn cynnwys darpariaeth sy'n gofyn bod y byrddau hynny'n cynllunio ac yn gweithredu i geisio llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardal; ac at ddibenion cysylltiedig.

Y Gofyniad am Asesiad o Lesiant Lleol

Mae'r Ddeddf¹ yn nodi bod yn rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru baratoi a chyhoeddi cynllun lles lleol bob pum mlynedd yn nodi ei amcanion lleol a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i'w cyflawni.

Cyn hynny, fodd bynnag, mae rhaid i bob bwrdd "lunio a chyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ei ardal", ddim hwyrach na blwyddyn cyn y dyddiad y bwriedir cyhoeddi cynllun llesiant lleol.

Mae Adran 37 (3) o'r Ddeddf yn darparu eglurhad pellach ynghylch yr hyn sy'n ofynnol yn yr asesiad, yn yr ystyr bod rhaid iddo –

- (a) nodi pa ardaloedd cymunedol sy'n cael eu cwmpasu gan ardal y bwrdd;
- (b) cynnwys dadansoddiad o gyflwr llesiant ym mhob ardal gymunedol unigol ac ar draws yr ardal gyfan;
- (c) cynnwys dadansoddiad o gyflwr llesiant pobl yn yr ardal;
- (ch) cynnwys unrhyw ddadansoddiad pellach y mae'r bwrdd yn ei gyflawni trwy gyfeirio at feini prawf a bennwyd ac a gymhwyswyd ganddo at ddiben asesu llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn yr ardal neu mewn unrhyw gymuned a leolir yn yr ardal;
- (d) cynnwys rhagfynegiadau ynghylch tueddiadau tebygol yn y dyfodol o ran llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal;
- (dd) cynnwys unrhyw ddata dadansodol a gwybodaeth arall y mae'r bwrdd yn barnu eu bod yn briodol.

Mae adrannau dilynol Pennod 2 y Ddeddf yn amlinellu'r canlynol:

- pwyntiau cyfeiriadol ychwanegol ar gyfer yr asesiad, e.e. dangosyddion cenedlaethol, adroddiad ar dueddiadau'r dyfodol;
- y gofyniad i nodi ac asesu ardaloedd cymunedol;
- categorïau o bobl yr awgrymir y gallai'r dadansoddiad eu hystyried;
- gofynion o ran ymgynghori ar yr asesiad drafft; a
- chyfres o asesiadau ac adolygiadau lleol a chenedlaethol eraill i'w hystyried.

Nod yr asesiad hwn yw darparu dadansoddiad cywir o gyflwr llesiant yn Abertawe yn ei chyfanrwydd ac ym mhob cymuned, a bydd y canfyddiadau a'r dadansoddiad yn cael effaith wrth bennu'r amcanion sydd i'w cyflwyno yn y cynllun llesiant lleol. Rhaid i'r bwrdd egluro yn ei gynllun llesiant lleol sut mae ei amcanion lleol ac unrhyw gamau mae'n bwriadu eu cymryd wedi cael eu pennu yng nghyswllt unrhyw faterion y cyfeirir atynt yn yr asesiad.

¹ Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted>

Roedd canllawiau gwreiddiol Llywodraeth Cymru ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch paratoi'r asesiadau ar gael ar sail statudol² ac anstatudol³. Ategodd Llywodraeth Cymru a swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y canllawiau gwreiddiol gyda dogfen 'Disgwyliadau' ar gyfer Byrddau yn gynharach yn 2021.

Beth yw Llesiant?

Mae cysyniad 'llesiant' yn gymhleth, heb amheuaeth, ac mae llawer o ddisgrifiadau a dehongliadau posibl o'r term. Bydd gan bobl farn wahanol ynghylch ystyr llesiant iddyn nhw'n bersonol ac i'w cymunedau.

Fodd bynnag, at ddibenion y Ddeddf a'r canllawiau sy'n cyd-fynd â hi, mae Llywodraeth Cymru yn diffinio llesiant egluraf yn y dyfyniadau canlynol o "Rhannu Pwrpas; Rhannu Dyfodol (SPSF) Canllaw Craidd 1, adran 2 – yr hanfodion":

17. Mae datblygu cynaliadwy yn ymwneud â chydabod bod llawer o bethau sy'n pennu ansawdd bywyd person (eu llesiant), ac y gallai'r rhain yn y lle cyntaf gael eu dosbarthu fel ffactorau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r rhain yn cael eu cynnwys yn y nodau llesiant. Mae hyn yn golygu y gallai gwella ansawdd ein hamgylchedd, ein heconomi, ein cymdeithas a'n diwylliant wella llesiant unigolion a Chymru yn gyffredinol.

20. Mae'n bwysig adnabod y gwahaniaeth rhwng llesiant Cymru a llesiant unigolion. Mae datblygiad cynaliadwy yn cysylltu'r amgylchedd rydym yn byw ynddo, yr economi rydym yn byw ynddi, y gymdeithas rydym yn ei mwynhau a'r diwylliannau rydym yn eu rhannu â phobl ac ansawdd eu bywydau.

Ar y sail hon gellid diffinio llesiant (yn gryno) yn nhermau'r ffactorau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol sy'n pennu ansawdd bywyd person. Fodd bynnag, er bod hynny'n ddefnyddiol fel math o ddiffiniad gwaith, nid yw'r berthynas rhwng llesiant ac ansawdd bywyd – er bod cyfatebiaeth rhyngddynt – yn uniongyrchol nac yn syml.

Ambell waith caiff lles ei ddiffinio neu ei esbonio gan awdurdodau cyhoeddus ar sail sut mae'n cael ei fesur; ar lefel genedlaethol er enghraifft, cyflwynodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) asesiad o gynnydd y DU yn erbyn cyfres o 43 o ddangosyddion lles cenedlaethol, gan gynnwys agweddau ar iechyd, yr amgylchedd naturiol, cyllid personol a throedd⁴. Cyhoeddwyd y dangosfwrdd dangosyddion hwn ddiwethaf yn 2019; fodd bynnag, mae'r SYG yn parhau i fonitro lles personol yn rheolaidd drwy amcangyfrifon o *fodhad bywyd, y teimlad bod y pethau a wneir mewn bywyd yn werth chweil, hapusrwydd a phryder* ar lefel genedlaethol a lefel awdurdod lleol.

Datblygodd Llywodraeth Cymru hefyd gyfres gychwynnol o 46 o ddangosyddion cenedlaethol yn ymwneud â lles yng Nghymru, fel sy'n ofynnol gan adran 10(1) o'r Ddeddf, gan gwmpasu agweddau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol lles, at

² Llesiant cenedlaethau'r dyfodol: canllawiau ar gyfer byrddau gwasanaethau cyhoeddus:

<https://llyw.cymru/llesiant-cenedlaethau-dyfodol-canllawiau-ar-gyfer-byrddau-gwasanaethau-cyhoeddus>

³ Byrddau gwasanaethau cyhoeddus: canllawiau ynghylch y defnydd o dystiolaeth a dadansoddiad:

<https://llyw.cymru/byrddau-gwasanaethau-cyhoeddus-canllawiau-ynghylch-y-defnydd-o-dystiolaeth-dadansoddiad>

⁴ Measuring National Well-being: Domains and Measures (Office for National Statistics):

www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/wellbeing/datasets/measuringnationalwellbeingdomainsandmeasures

ddiben mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau lles cenedlaethol⁵. Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyfres gychwynnol o wyth carreg filltir genedlaethol gyda'r nod o ymgynghori ar ail don o gerrig milltir a ddisgwyllir yn ddiweddarach yn 2022. Gwnaed rhai gwelliannau i'r dangosyddion cenedlaethol hefyd ym mis Rhagfyr 2021, sydd bellach yn gyfanswm o 50. Mae'n ofynnol i asesiadau o les lleol roi sylw i'r dangosyddion cenedlaethol cyn belled ag y bo modd.

Cefndir yn Abertawe

O 2013 ymlaen, bu'r asesiad blynyddol o anghenion strategol yn darparu'r sylfaen o dystiolaeth ar gyfer Cynllun Integredig Sengl Abertawe – Cynllun Un Abertawe – o dan fframwaith blaenorol Llywodraeth Cymru ('*Cydamcanu, Cydymdrechu*').

Cynhaliwyd yr asesiadau hyn gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Abertawe (BGLI), corff rhagflaenol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd yr asesiadau o anghenion yn darparu dadansoddiad yng nghyswllt chwe chanlyniad poblogaeth, y nodwyd ac y cytunwyd arnynt gan BGLI Abertawe yn sail ar gyfer Cynllun Un Abertawe.

Fodd bynnag, crëodd Deddf 2015 fframwaith newydd i gyrff cyhoeddus yng Nghymru wella lles eu hardaloedd; drwy asesu cyflwr lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, ac yn ddiweddarach drwy osod amcanion lleol a chymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny. Pwrpas craidd yr asesiad cyntaf (2017) oedd darparu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer Cynllun Lles cyntaf Abertawe, a ddatblygwyd yn y flwyddyn yn dilyn cyhoeddiad yr asesiad (2018).

Mae'r fframwaith deddfwriaethol a chanllawiau yn parhau i fod ar waith; felly bydd yr Asesiad o Les Lleol 2022 hwn yn llywio Cynllun Lles BGC Abertawe yn 2023.

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Abertawe

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe yn bartneriaeth o asiantaethau gwasanaethau cyhoeddus sy'n gweithio gyda'i gilydd i wella gwasanaethau lleol. Mae'n disodli'r hen Fwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLI), ac mae'n cynnwys y partneriaid statudol sef Cyngor Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Cyfoeth Naturiol Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru; ynghyd â phartneriaid rhanbarthol a lleol fel Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe (CGGA), Heddlu De Cymru a'r prifysgolion lleol.

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn Abertawe wedi darparu adnodd staff i gyfrannu at ddatblygu'r asesiad hwn o les lleol gan gynnwys ymchwilwyr a dadansoddwyr o wahanol sefydliadau sy'n ymwneud â'r Bwrdd.

Cydlynwyd y gwaith ar yr asesiad hwn gan Grŵp Asesu Golygyddol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r partneriaid statudol, y sector gwirfoddol ac 'arweinwyr llinyn' unigol sydd wedi dod â'r dystiolaeth o fewn pob dimensiwn o les at ei gilydd. I ddechrau, datblygwyd ein

⁵ Llesiant Cymru: dangosyddion cenedlaethol (Llywodraeth Cymru): <https://llyw.cymru/llesiant-cymru-dangosyddion-cenedlaethol>

hymagwedd drwy Fforwm Ymchwil eang; yna'n ddiweddarach gan bedwar grŵp tasg unigol sy'n seiliedig ar ddimensiwn i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer pob agwedd ar les.

Dull cyffredinol

Datblygwyd diagramau o'r sbardunau ar gyfer canlyniadau poblogaeth Abertawe yn y lle cyntaf ar gyfer defnydd lleol fel rhan o Gynllun Un Abertawe 2015, ac roeddent yn darparu'r strwythur ar gyfer y dystiolaeth a'r dangosyddion a ddefnyddiwyd yn yr asesiad blynyddol canlynol o anghenion strategol. Dilynwyd yr ymagwedd hon ar gyfer Asesiad Lles Lleol cychwynnol yn 2017 ac yn y Cynllun Lles yn 2018.

Fodd bynnag, at ddibenion yr asesiad hwn, nid ydym wedi parhau â'r ymagwedd diagram sbardun. Mae'n amlwg o ddadansoddi'r rownd gyntaf o asesiadau lles yng Nghymru na ddilynwyd yr ymagwedd hon yn gyffredinol mewn mannau eraill a bod y rhan fwyaf o ardaloedd BGC wedi strwythuro eu hasesiadau cychwynnol ar sail y pedwar dimensiwn lles. Mae'r newid hwn hefyd yn cynrychioli symudiad i ffwrdd o'r strwythur gwreiddiol sy'n seiliedig ar y BGLI, a gyflwynwyd i ddechrau (yn amodol ar newidiadau cymedrol) yn ystod y trawsnewidiad i BGC Abertawe. Yn ogystal, awgrymodd dogfen ddiweddaraf Llywodraeth Cymru a swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Disgwyliadau , fod "yr asesiad yn cynnwys y pedwar dimensiwn lles (h.y. lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol)".

O fewn y pedwar dimensiwn, nodwyd bod nifer o feysydd pwnc yn sail i'n dadansoddiad o les. Er bod y dewis o bynciau ym mhob dimensiwn yn oddrychol i raddau helaeth, datblygwyd y rhain yn dilyn trafodaeth helaeth â'r cydweithwyr partner sy'n cymryd rhan.

'Ardaloedd Cymunedol'

Mae'r Ddeddf yn datgan bod rhaid i'r asesiad "nodi pa ardaloedd cymunedol sy'n cael eu cwmpasu gan ardal y bwrdd". Dylai'r ardaloedd hyn fod yn ddigon mawr i ddangos gwahaniaethau a meddu ar ymdeimlad o hunaniaeth, ond yn fwy eu maint na wardiau etholiadol. Yn unol ag argaeledd ystadegau cyhoeddus, awgrymir 'ACEHI lluosog' (Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is) yn y canllawiau.

Ar gyfer yr asesiad cyntaf yn 2017, daeth y BGC i'r casgliad bod y clwstwr meddygon teulu lleol neu Ardaloedd Rhwydwaith Sylfaenol a Chymunedol (RhSC) (a ddefnyddir yn bennaf gan y sector iechyd) yn darparu sail i'r ymagwedd gyffredinol mwyaf addas ar gyfer Abertawe.

Fodd bynnag, gan fod rhai o'r ardaloedd hyn yn eithaf mawr, o ran poblogaeth ac arwynebedd, cytunwyd bod ardal y 'Bae' wedi ei rhannu yn Ardal Cymunedol 'Dwyrain y Bae' a 'Gorllewin y Bae' (a gynyddodd nifer yr ardaloedd yn Abertawe i chwech). Mae rhestr a map o'r ardaloedd hyn gan ACEHI, ynghyd ag ystadegau allweddol cryno, wedi'u cynnwys yn Atodiad 4. Mae'r ardaloedd hyn unwaith eto wedi bod yn sail i'n Hardaloedd Cymunedol yn yr asesiad hwn.

Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi bod yn rhaid i asesiad "... gynnwys dadansoddiad o gyflwr lles ym mhob ardal gymunedol". Mae'r dystiolaeth a luniwyd o gwmpas pob dimensiwn a phwnc lles yn yr asesiad yn ceisio dod â'r dystiolaeth leol hon i'r amlwg, cyn belled ag y mae ar gael.

Casglwyd y dystiolaeth drwy ymgysylltu a chyfranogiad

Un o brif negeseuon y Ddeddf a'r canllawiau yw y dylai data a gwybodaeth a gasglwyd drwy ymgysylltu â dinasyddion a'r gymuned fod yn rhan allweddol o unrhyw asesiad o les lleol.

Mae'r Asesiad wedi'i seilio'n bennaf ar dystiolaeth ystadegol ac ymchwil ond mae cyd-destun o brofiad bywyd yn hanfodol i ddarparu asesiad cytbwys ac ystyrlon. Diben y cyfranogiad hwn yw sicrhau bod bylchau'n cael eu nodi, lleisiau nad ydynt yn aml yn cael eu clywed yn cael eu hystyried a bod safbwynt dinasyddion yn ganolog drwy ategu cyfoeth o brofiad sy'n adlewyrchu realiti ar lawr gwlad at fanylion technegol.

Fodd bynnag, prin oedd yr adnoddau a'r gallu a oedd ar gael gan bartneriaid yn rhannol oherwydd effeithiau pandemig COVID-19. Trwy gydol y broses o baratoi'r asesiad, profodd Abertawe gyfraddau heintiau uchel gan roi llawer o wasanaethau dan bwysau eithriadol. Yn ogystal, roedd gweithio gartref a mesurau i leihau cysylltiad â'r cyhoedd ar waith mewn llawer o sefydliadau ac felly'n cyfyngu ar weithgaredd cyfranogiad.

Prif ddiben yr asesiad yw darparu sylfaen dystiolaeth gytbwys i lywio datblygiad y Cynllun Lles Lleol ac mae cyfranogiad yn ffordd allweddol o gyflawni hyn. Mae Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru hefyd wedi nodi bod ffocws yr asesiad ar ymgysylltu fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth gyffredinol, wrth i broses y Cynllun Lles Lleol roi cyfle mwy cydgynhyrchiol.

Mae adnoddau hawdd eu darllen a hygyrch yn cael eu defnyddio lle bynnag y bo modd drwy gydol y broses, gan roi blaenoriaeth ar sicrhau bod crynodeb o sylfaen dystiolaeth yr asesiad yn hygyrch i bawb sy'n ymwneud â datblygu'r Cynllun Lles Lleol - fel prif ddiben yr asesiad.

Mae gwybodaeth bellach ynghylch ein hymagwedd at ymgysylltu â'r asesiad, y gwahanol gamau sy'n gysylltiedig, yr arolwg lles a gynhaliwyd yn hydref 2021, a chanlyniadau a dadansoddiad allweddol o'r arolwg hwnnw, ar gael yn Atodiad 1. Mae ymatebion arolwg cyhoeddus a gwybodaeth arall a gafwyd o'r arolwg lles hefyd wedi'u cynnwys yn y brif ddogfen asesu.

Casglu tystiolaeth

Er mwyn dechrau bwrw ymlaen â'r gwaith casglu tystiolaeth manwl sydd ei angen i lunio'r asesiad, sefydlwyd Grŵp Golygyddol a Fforwm Ymchwil, a hwylusodd y gwaith o ddod â phedwar grŵp tasg unigol sy'n seiliedig ar ddimensiwn ynghyd, sy'n cynnwys dadansoddwyr ac arbenigwyr pwnc gan sefydliadau sy'n aelodau o BGC. Eu rôl gyffredinol oedd casglu a dadansoddi tystiolaeth berthnasol ynghylch pob un o'r pedwar dimensiwn o les.

O fewn pob grŵp, mae amrywiaeth o gydweithwyr o'r bartneriaeth wedi ysgrifennu cynnwys yn ymwneud â phynciau penodol, ar lefel pwnc 'allweddol' a 'chysylltiedig' o fewn pob llinyn neu ddimensiwn. Ar lefel 'pwnc allweddol', yn gyffredinol mae rhwng pump a deg

pwnc wedi'u nodi fesul dimensiwn i ddechrau. Gyda nifer o feysydd pwnc allweddol yn eang iawn o ran cwmpas, mewn sawl achos nodwyd haen arall o 'bynciau cysylltiedig' i gynorthwyo'r broses o gasglu tystiolaeth gyda chynnwys a luniwyd i ddechrau gan wahanol awduron mewn llawer o achosion.

Er mwyn cynorthwyo'r cynnwys hynny sy'n cyfrannu'n unigol at yr asesiad (o bosib o amrywiaeth o ffynonellau) a'r rheini sy'n dod â'r ddogfen derfynol at ei gilydd, crëwyd templedi i'w defnyddio gan y rheini sy'n gweithio ar yr asesiad – gyda'r nod o ddarparu fformat cyffredin a strwythur cydlynol ar gyfer dadansoddi ar draws meysydd pwnc amrywiol a dod â'r gwahanol ffynonellau tystiolaeth a luniwyd ar gyfer pob pwnc at ei gilydd.

Roedd y 'templod tystiolaeth' yn sail i gynnwys y ddogfen asesu bresennol. Yn grynhoi, mae'r agweddau canlynol wedi'u hystyried a'u cynnwys ar gyfer pob pwnc allweddol, cyn belled ag y bo modd:

- Tystiolaeth: rhestr o'r prif ffynonellau
- Cryfderau ac asedau: ar gyfer Abertawe gyfan a phobl a chymunedau ynddi; gwasanaethau allweddol a phrosiectau sy'n cefnogi'r pwnc
- Newidiadau dros amser: canolbwyntio ar newid ers asesiad 2017 ac yn gyffredinol
- Cymariaethau â lleoedd eraill: mewn mannau eraill yng Nghymru a/neu'r DU
- Gwahaniaethau yn Abertawe: yn ôl ardal gymunedol, grŵp daearyddiaeth neu bobl arall
- Canfyddiadau a safbwyntiau: adroddiadau ymchwil, arolygon, tystiolaeth/straeon ymgysylltu â'r cyhoedd
- Rhagolygon y dyfodol: tueddiadau'r dyfodol, beth sy'n debygol o ddigwydd os yw'r tueddiadau presennol yn parhau
- Integreiddio: cysylltiadau ac effeithiau cliraf rhwng pwnc ac eraill ar draws dimensiynau
- Sut byddai gwelliannau'n edrych?
- Ynghylch y dystiolaeth: gan gynnwys cryfderau a chyfyngiadau ffynonellau, bylchau tystiolaeth
- Casgliadau a negeseuon allweddol: yr hyn mae'r dystiolaeth bwnc yn ei ddweud wrthym am les.

Atodiad 3 – Fersiwn 1.0

Mai 2022